**HYSBYSIAD STATUDOL**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyfarwyddiaeth Addysg, Y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy, NP23 6DN**

Hysbysir yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Fersiwn 2 2018) bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ar ôl ymgynghori gyda'r fath bersonau ag sydd angen, yn cynnig newid Ysgol Arbennig Pen y Cwm, Lon Strand Annealing, Glynebwy, Blaenau Gwent NP23 6AN ar gyfer bechgyn a merched 3-19 oed er mwyn ymestyn capasiti'r ysgol. Ar hyn o bryd caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bydd yn parhau felly. Ni fydd gan yr ysgol unrhyw gymeriad crefyddol enwadol.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gyfnod ymgynghori ffurfiol cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yn:-
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/

Cynigir gweithredu rhan 1 o'r cynnig ar 1 Medi 2026. Rhan 1 yw'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd, o [1 af] Medi 2026 ymlaen. Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys cydnabyddiaeth ffurfiol o'r Ddarpariaeth Ôl-16 ar Safle'r Ŵyl Uned 4 ac ystafelloedd dosbarth ychwanegol a ddatblygwyd ym mhrif adeilad yr ysgol.

Bydd Rhan 2 o'r cynnig, sef y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm ymhellach o 205 i 250 o leoedd yn cael ei gweithredu i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd 1 Medi 2030/31. Mae dau opsiwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor i hwyluso'r capasiti estynedig. Mae'r opsiwn cyntaf yn golygu bod y Cyngor yn ailfodelu amgylchedd dysgu presennol i greu mannau dosbarth ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig pellach h.y. toiledau. Yr opsiwn arall fyddai adeiladu estyniad i'r ddarpariaeth bresennol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fydd yr awdurdod derbyn drwy banel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor. Capasiti disgyblion yr ysgol newydd fydd 205 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol (4-16) o ddechrau blwyddyn academaidd 2026/27 a 250 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol (4-16) o ddechrau blwyddyn academaidd 2030/31. Mae gan yr ysgol hefyd ddarpariaeth Ôl-16 hyd at 19 oed.

Darperir cludiant i ddisgyblion yn unol â pholisi'r Cyngor ar gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol (wedi'i ddiweddaru bob blwyddyn ). Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses er mwyn asesu anghenion teithio plant a all fod angen cludiant ADY. Bydd disgyblion sydd angen cludiant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n byw:

- dros 1.5 milltir (ar gyfer rhai dan 8 mlwydd oed); a/neu
- dros 2 filltir (ar gyfer rhai rhwng 8-16 mlwydd oed)

o'u darpariaeth ADY addas agosaf yn cymhwyso'n awtomatig am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. *Dylid nodi na ddarperir cludiant mewn achosion lle mae'r ysgol yn ddewis y rhiant ac nid y ddarpariaeth a benderfynwyd gan y Panel ADY.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod **dydd Lau, 26 Chwefror 2026** o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **dydd Lau, 26 Mawrth 2026**. Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at **21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Y Tîm Adnoddau a Chynllunio, Swyddfeydd Cyffredinol, Heol y Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN.

Llofnodwyd

J Watts

**Pennaeth Adnoddau a Chynllunio**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.**
**26 Chwefror 2026**

**NODYN ESBONIADOL**

Mae Pen y Cwm yn Ysgol Arbennig yn darparu ar gyfer dysgwyr ar draws ystod oedran 3-19, gydag amrywiaeth eang o anableddau ac anawsterau yn amrywio o ddisgyblion gydag Anawsterau Dysgu Difrifol i Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, Nam ar y Golwg a Nam ar y Clyw. Mae gan bob disgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae'r ysgol yn darparu adeiladau a chyfleusterau hygyrch ar gyfer rhai sydd ag anabledd corfforol ynghyd ag anhawster dysgu.

Mae poblogaeth yr ysgol wedi tyfu'n sylweddol ers yr ymgynghoriad diwethaf a gynhaliwyd yn 2021. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol arbennig eisoes wedi llenwi'r lwfans o 10%. O ganlyniad, mae angen i'r cyngor ehangu'r capasiti ymhellach i 205 o leoedd. Mae buddsoddiad mawr gan y cyngor ar ffurf grantiau ADY eisoes wedi gwella'r gofod hyblyg sydd ar gael ac ardaloedd arbenigol. Fodd bynnag, mae pob un o'r cyfnodau (cyfnod sylfaen / cynradd / uwchradd / ôl-16) yn dal i gael eu peryglu o ran hyblygrwydd a gofod. Dyna pam mae angen adleoli'r ddarpariaeth ôl-16.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn **ddydd Llun, 8 Rhagfyr 2025** a daeth i ben **ddydd Sul, 18 Ionawr 2026.**

Felly, caiff y cynnig ei gyflwyno mewn 2 ran:

- **Rhan 1:** Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Bydd hyn hefyd yn cynnwys:
    - Cydnabod yn ôl-weithredol y ddarpariaeth ôl-16 yn Uned 4, Safle'r Ŵyl, Glynebwy (gan gynnwys tair ystafell ddosbarth, ystafell synhwyraidd, ystafell gyffredin, ystafell sgiliau bywyd, ystafell gyfarfod, ardal arlwyo/fwyta, toiledau a chyfleusterau hylendid)
    - Cydnabyddiaeth ôl-weithredol o ystafelloedd dosbarth ychwanegol a ddatblygwyd ym mhrif adeilad yr ysgol

- **Rhan 2:** Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm ymhellach o 205 i 250 o leoedd i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2030/31. Bydd hyn yn cynnwys parhau â datblygiad y cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol, gan gynnwys naill ai darpariaeth adeilad newydd ar y tir gerllaw'r ysgol neu ailwampio adeilad presennol yr ysgol i ddarparu ar gyfer y capasiti cynyddol.

Mae'r adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Mae mwy o wybodaeth ar y cynnig ar gael yma:
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/

**DIWEDD YR HYSBYSIAD**